

# Eich Tâl GIG yng Nghymru - y camau nesaf



# Y daith i bleidlais ddangosol yng Nghymru:

Ym mis Gorffennaf 2021, rhoddodd Llywodraeth Cymru **ddyfarniad tâl o 3% ar gyfer 2021-2022 i staff y GIG yng Nghymru.**

Mae hyn yn golygu y bydd nyrs brofiadol yn cael llai o dâl mewn termau real



Lansiodd RCN Cymru bleidlais ymgynghorol i gael gwybod barn yr aelodau ar y dyfarniad tâl. Dywedodd 94% o'r aelodau cymwys a bleidleisiodd fod y dyfarniad tâl yn annerbyniol. Gofynnodd RCN Cymru i Lywodraeth Cymru ailystyried ei dyfarniad tâl canrannol yn sgil barn yr aelodau. Gwrthododd Llywodraeth Cymru wneud hynny.



Yn y cyd-destun hwn, ac yn dilyn canlyniadau'r bleidlais ymgynghorol, fe wnaeth aelodau etholedig RCN Cymru gyfarfod i drafod y camau nesaf. Cytunwyd bod **angen pleidlais ddangosol.**



Mewn **pleidlais ddangosol – rhwng 4 Tachwedd a 30 Tachwedd 2021** - gofynnir i chi a ydych yn barod i gymryd camau diwydiannol i sicrhau newid i'r tâl. Gweithredu diwydiannol yw'r dewis olaf bob amser ac mae diogelwch cleifion bob amser yn hollbwysig.

# Beth yw pleidlais ddangosol?

Mae pleidlais ddangosol yn gofyn i aelodau a fydden nhw yn bersonol yn barod, mewn egwyddor, i gymryd unrhyw fath o gamau gweithredu diwydiannol. Nid yw'r pleidlais hon yn awdurdodi gweithredu diwydiannol.

Os bydd digon o aelodau'n dweud eu bod yn fodlon cymryd rhan mewn rhyw fath o weithredu diwydiannol, efallai mai pleidlais statudol fydd y cam nesaf. Mae pleidlais statudol yn ofyniad cyfreithiol cyn y gellir gweithredu'n ddiwydiannol. Mewn pleidlais statudol, mae trothwyon llym y mae angen eu bodloni. Yn benodol, rhaid i o leiaf hanner yr holl aelodau sy'n gymwys i bleidleisio wneud hynny.

Mae pleidlais ddangosol yn brawf hollbwysig o ran a ellid, yn ymarferol, fodloni'r trothwy hwn.

**Mae gweithredu diwydiannol bob amser yn ddewis olaf ond mae'r heriau staffio presennol yn achosi peryglon annerbyniol i gleifion a staff. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael llawer o gyfleoedd i wneud y peth iawn dros nyrso.**

# Beth yw gweithredu diwydiannol?

Gall gweithredu diwydiannol fod ar ddwy ffurf: gweithredu heb streicio a gweithredu drwy streicio.

**Darllenwch fwy am weithredu diwydiannol fel y gallwch wneud dewis gwybodus:**

Rhagor o wybodaeth:  
[rcn.org.uk/IAHandbook](http://rcn.org.uk/IAHandbook)



# Beth yw gweithredu heb streicio?

Yn gyffredinol, mae'n golygu gweithio yn llym i delerau eich contract cyflogaeth a gelwir hyn yn aml yn "gweithio i reol". Gall hyn gynnwys cymryd eich holl seibiannau cytundebol a/neu ddechrau/ gorffen eich sifftiau ar amser a/neu wrthod gwneud goramser â thâl neu'n ddi-dâl.

Drwy weithio i reol, rydych yn tynnu'n ôl yr ewyllys da y mae Llywodraeth Cymru a chyflogwyr yn aml yn dibynnu arno. Felly, gall gweithredu heb streicio arwain at darfu os bydd nifer sylweddol o'r gweithlu yn ei wneud. Gall hyn roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i ailystyried ei safbwynt ar y dyfarniad tâl.

# Beth yw gweithredu drwy streicio?

Mae gweithredu drwy streicio yn golygu tynnu llafur yn ôl o'r gweithle yn llwyr. Gallai hyn fod am hanner diwrnod, diwrnod neu hyd yn oed yn hirach, yn dibynnu ar yr anghydfod. Bydd gweithredu drwy streicio bron yn sicr o arwain at darfu ar wasanaethau'r GIG.

# Diogelu cleifion

Pe bai'r RCN yn cymryd camau diwydiannol, byddai diogelwch cleifion yn hollbwysig. Byddai'r RCN yn gweithio gyda chyflogwyr i sicrhau eu bod yn cynnal lefelau staffio diogel a darpariaeth gwasanaeth bob amser yn ystod unrhyw gyfnod o weithredu diwydiannol.



# Defnyddiwch eich pleidlais i benderfynu ar y ffordd ymlaen ar gyflogau

Mae'r pleidlais hon yn gyfle i aelodau'r RCN, fel chi, anfon neges gref at Lywodraeth Cymru am yr hyn yr ydych chi'n fodlon ei wneud i sicrhau'r tâl yr ydych chi'n ei haeddu. Peidiwch â cholli'r cyfle i fod yn rhan o newid pwysig i'ch proffesiwn a'ch cleifion.

Cadwch lygad am e-bost gan Civica Election Services

**RCN@cesvotes.com**

a defnyddiwch y ddolen unigryw a ddarperir i bleidleisio. Cofiwch wirio eich ffolderi sothach a sbam os nad ydych yn gweld yr e-bost yn eich mewNFLwch.

Mae'r pleidlais ar agor 4-30 Tachwedd 2021.

## Diweddarau eich manylion

Gallwch ond gymryd rhan yn y pleidlais os gall RCN gadarnhau eich bod wedi eich cyflogi yng Nghymru a bod eich gweithle a'ch cyflogwr yn golygu eich bod yn gymwys i bleidleisio oherwydd eich bod yn gyflogedig yn y GIG ac ar gontract Agenda ar gyfer Newid.



**Cadarnhewch  
fod eich  
manylion  
yn gywir ac  
anogwch eich  
cydweithwyr  
i wneud yr un  
peth.**



**rcn.org.uk/MyRCN**

[rcn.org.uk/FairPayWales](https://rcn.org.uk/FairPayWales)

Dysgwch fwy am yr ymgyrch  
#FairPayForNursing campaign



 @RCNWales  @RCNWales  @rcn\_wales  RCNWales